Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cydweithredu rhwng cynghorau Ynys Môn a Gwynedd** |
| **Dyddiad:** | **3 Rhagfyr 2010** |
| **Gan:** | **Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol** |

Yr wythnos ddiwethaf, cyhoeddais setliad refeniw llywodraeth leol drafft ar gyfer 2011-12. Bydd y gostyngiadau mewn cyllid sydd, o reidrwydd, wedi'u cynnwys ynddo yn her sylweddol i awdurdodau lleol o safbwynt ariannol a darparu gwasanaethau. O ystyried y sefyllfa ehangach ym maes cyllid cyhoeddus, ni allaf ymddiheuro am hynny, ond gallaf gefnogi awdurdodau lleol i'r carn wrth iddynt wneud eu gorau i ymdrin â'r heriau hyn.

Rwyf o'r farn mai un o'r ffyrdd gorau i awdurdodau lleol wneud hynny yw trwy gydweithio i ddarparu gwasanaethau pwysig. Mae cael 22 o strwythurau ar wahân, gyda phob un ohonynt yn darparu'r holl wasanaethau y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt, yn arwain at ddyblygu costau a llai o arbedion maint. Gall hynny olygu nad oes modd i'r awdurdodau llai o faint, yn benodol, ddarparu gwasanaethau mwy arbenigol. Wrth gwrs, gall hefyd olygu bod cynghorau'n ymateb yn well i anghenion lleol. Ond rhaid i'r cydbwysedd fod yn iawn, ac yn ystod y cyfnod anodd hwn rhaid inni edrych yn fanwl iawn ar hynny.

Yn y cyd-destun hwn, yn ddiweddar cynhaliais innau a'm swyddogion drafodaethau ag arweinwyr grŵp ac uwch swyddogion Ynys Môn a Gwynedd ar y posibilrwydd o integreiddio'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae'r ddau gyngor yn gwasanaethu ardaloedd sydd ar y cyfan yn rhai gwledig a Chymraeg eu hiaith, ac maent wedi cydweithio'n dda yn y gorffennol. Er enghraifft, maent wedi gweithredu un gwasanaeth cymorth addysg ers nifer o flynyddoedd, ac yn ddiweddar cyhoeddwyd eu bwriad i gydweithio er mwyn cynllunio defnydd tir yn strategol. Ond er bod yn rhaid canmol cydweithio ar y raddfa honno, ni fydd hynny'n cyflawni arbedion ar y raddfa y bydd yn rhaid i'r ddau gyngor ei chyrraedd. Mae hynny'n galw am integreiddio prif wasanaethau'n llawn, sydd ei dro yn golygu symud tuag at rannu uwch dîm rheoli.

Mae’n bleser gennyf adrodd bod y trafodaethau wedi bod yn gadarnhaol iawn yn achos y ddau gyngor. Mae’r ddwy ochr yn derbyn yn llawn bod angen cydweithio’n agosach er mwyn gwneud arbedion a diogelu gwasanaethau’r rheng flaen, ac mae’r naill a’r llall o’r farn mai dyma’r amser priodol i archwilio’n fanwl y posibilrwydd o integreiddio gwasanaethau. Rwyf wedi cytuno, felly, i lunio rhai egwyddorion ar gyfer cynnal astudiaeth gwmpasu lawn, a fyddai’n adrodd yn ôl imi ac i’r ddau gyngor yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Yn ddiweddar, ysgrifennais at arweinwyr y ddau gyngor i esbonio’r egwyddorion hyn ac i ofyn iddynt geisio cefnogaeth ffurfiol eu haelodau ar eu cyfer cyn gynted â phosibl. Gellir gweld copi o’r egwyddorion ar ddiwedd y ddogfen hon.

Rwy’n cynnig cynnal adolygiad manwl ar y potensial i’r ddau awdurdod gydweithio. Bydd yn ymdrin â’r arbedion posibl a’r gallu i ddiogelu a gwella gwasanaethau’r rheng flaen, yn ogystal ag unrhyw berygl ac ansicrwydd cysylltiedig. Nid wyf yn gofyn i’r naill gyngor na’r llall ymrwymo i unrhyw beth ar hyn o bryd: ni ddylai unrhyw sefydliad gytuno i gydweithio heb ystyried y dystiolaeth. Ond byddai hefyd yn afresymol i unrhyw awdurdod wrthod hyd yn oed ystyried y posibilrwydd, gan ildio yn seiliedig ar egwyddor unrhyw fanteision sylweddol a allai godi. Rwyf felly’n annog pob un o gynghorwyr Ynys Môn a Gwynedd i gefnogi’r cynigion.

Mae’n hanfodol pwysleisio nad oes a wnelo hyn ddim o gwbl ag uno’r awdurdodau. Mae’n gwbl bosibl cynnal democratiaeth leol wrth fynd ati i adolygu’n radical y trefniadau ar gyfer darparu a rheoli gwasanaethau, fel y mae nifer o gynghorau yn yr Alban a Lloegr wedi cydnabod. Dyna yw nod y camau hyn yn y pen draw. Nid wyf yn dymuno lleihau ar ymreolaeth ddemocrataidd; yn hytrach, rwyf am helpu i ddiogelu gwasanaethau allweddol. Petai’r rhaglen hon yn cael ei rhoi ar waith, byddai’r ddau gyngor yn parhau i fodoli fel endidau democrataidd ar wahân. Byddai cynghorwyr yn parhau â’r un ystod o gyfrifoldebau ag ar hyn o bryd, a byddent yn atebol i’r bobl leol yn yr un ffordd.

Ni allaf anwybyddu’r ffaith bod Ynys Môn wrthi’n adfer ei sefyllfa yn sgil problemau llywodraethu corfforaethol difrifol iawn, o dan gyfarwyddyd a roddwyd gan Brian Gibbons y llynedd. Maent yn gwneud rhywfaint o gynnydd, er bod y broses hon ymhell o fod wedi’i chwblhau. Ond fe ddylwn i bwysleisio nad yw’r hyn rwy’n ei gynnig heddiw, yn y lle cyntaf, yn ymateb i broblemau Ynys Môn nac yn ddatrysiad iddynt. Nid yw’n golygu bod y cyngor wedi methu ac nad oes modd adfer y sefyllfa. Ac ni ddylid ei ddehongli ychwaith i olygu bod Gwynedd yn cymryd yr awenau - rwy’n siŵr na fyddai Gwynedd am weld y sefyllfa honno’n codi beth bynnag.

Mae’n debygol y byddai angen mwy o gydweithredu rhwng y ddau awdurdod hyd yn oed heb gymryd problemau diweddar Ynys Môn i ystyriaeth, er bod y rheini’n golygu bod angen cyflymu’r broses. Os bydd y prosiect hwn yn llwyddo, ni fydd hynny’n golygu bod ein hymyrraeth, o reidrwydd, yn dod i ben. Ond os bydd aelodau a swyddogion Ynys Môn yn dangos yr arweiniad a’r ymrwymiad sy’n ofynnol i sicrhau ei fod yn llwyddiant, bydd yn dystiolaeth gref o gynnydd tuag at adferiad cynaliadwy.

Y pwynt cychwyn yn unig yw fy nghyhoeddiad heddiw. Cyfrifoldeb y ddau gyngor yw mynd â hyn ymhellach, gyda fy nghefnogaeth lawn innau a CLILC. Rwyf o’r farn bod

ymrwymiad a gonestrwydd y Cynghorau hyd yn hyn yn dangos bod gan lywodraeth leol y gallu a’r parodrwydd i ymdrin â phroblemau dyrys, ac y gallant gamu i ddyfodol anodd gyda rhywfaint mwy o hyder.

**Cydweithredu Strategol rhwng Ynys Môn a Gwynedd**

**Egwyddorion yr Astudiaeth Gwmpasu**

Bydd pob awdurdod lleol yn wynebu heriau difrifol dros y blynyddoedd nesaf yn sgil y pwysau dwys ar gyllidebau'r sector cyhoeddus a'r goblygiadau o safbwynt darparu gwasanaethau. Mae'n bosibl mai un o'r ffyrdd mwyaf buddiol o fynd i'r afael â'r heriau hynny, gan amddiffyn gwasanaethau rheng flaen, yw i awdurdodau gydweithredu fwyfwy â'i gilydd.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn cydweithredu â'i gilydd yn rheolaidd. Er enghraifft, mae Gwynedd ac Ynys Môn wedi bod yn cynnal gwasanaeth cymorth addysg ar y cyd ers nifer o flynyddoedd, a newydd ymrwymo i sefydlu uned cynllunio strategol unedig. Fodd bynnag, er bod yr enghreifftiau hynny'n rhai cadarnhaol, ni fyddan nhw nac enghreifftiau tebyg yn sicrhau'r math o arbedion y bydd angen i bob awdurdod eu gwneud yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae hynny'n golygu bod angen integreiddio gwasanaethau pwysig a'u trefniadau rheoli yn llwyr. Mae sawl cyngor yn Lloegr a'r Alban eisoes wedi cydnabod hynny ac wedi mabwysiadu'r dull gweithredu hwn.

Yn dilyn trafodaethau rhwng y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac aelodau ac uwch-reolwyr y ddau gyngor, credir bod budd mewn ymchwilio'n fanwl i botensial a phosibilrwydd integreiddio gwasanaethau yn y fath fodd. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r egwyddorion a'r telerau a fydd yn sail i astudiaeth gwmpasu o'r fath.

**Cyffredinol**

1. Nod yr astudiaeth gwmpasu hon yw ystyried i ba raddau y gallai integreiddio gwasanaethau pwysig sicrhau arbedion effeithlonrwydd i'r ddau gyngor, gan amddiffyn a gwella gwasanaethau rheng flaen i ddinasyddion a chymunedau.

2. Mae'r ddau gyngor wedi ymrwymo i'r astudiaeth gwmpasu hon, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ymrwymo i gynorthwyo'r astudiaeth. Bydd pob corff yn ystyried canfyddiadau'r astudiaeth yn ôl eu rhinweddau. Ond, ar hyn o bryd, nid oes yr un ohonynt wedi ymrwymo i dderbyn y canfyddiadau nac i'w rhoi ar waith.

**Democratiaeth**

3. Nid yw'r astudiaeth yn ymwneud ag uno na diddymu awdurdodau. Bydd y ddau gyngor yn parhau'n endidau democrataidd annibynnol, a bydd gan eu haelodau'r un ystod o swyddogaethau cynrychioliadol, craffu a gweithredol ag sydd ganddynt ar hyn o bryd.

4. Nid yw'r astudiaeth hon ychwaith yn ymwneud ag un awdurdod yn dod yn gyfrifol am awdurdod arall. Mae gan y ddau gyngor eu cryfderau a'u gwendidau ac mae'r ddau'n wynebu heriau tebyg, yn ariannol ac o ran darparu gwasanaethau. Yn hytrach, mae'r astudiaeth hon yn cydnabod gwerth posibl wynebu'r heriau hynny fel partneriaid cyfartal.

**Gwasanaethau**

5. Bydd yr astudiaeth yn ystyried y posibilrwydd o integreiddio gwasanaethau a ddarperir gan y ddau gyngor, a mynd ati i'w darparu drwy un set o drefniadau gweithredol a rheoli. Mae hynny'n cynnwys gwasanaethau corfforaethol a gwasanaethau 'cefn swyddfa' sydd yn aml yn allweddol o ran sicrhau arbedion mawr a hybu integreiddio ehangach. Yn arbennig, bydd yr astudiaeth yn ceisio pennu'r canlynol:
    a. Y gwasanaethau y gellid eu cynnwys mewn trefniadau o'r fath;
    b. Faint o arbedion effeithlonrwydd y gellid eu gwneud drwy drefniadau o'r fath, a phryd y byddai'r arbedion hynny'n digwydd;
    c. Manteision posibl trefniadau o'r fath o ran diogelu a gwella ystod ac ansawdd y gwasanaethau;
    d. Effeithiau posibl trefniadau o'r fath ar y gallu i recriwtio a chadw staff arbenigol o safon uchel, yn enwedig staff sy'n gallu gweithio yn Gymraeg;
    e. Risgiau mabwysiadu'r dull hwn ar gyfer gwasanaethau penodol ac yn gyffredinol, a sut y gellid rheoli hynny; ac
    f. Y sgil-effeithiau i'r ddau awdurdod, yn ariannol ac o ran darparu gwasanaethau, pe na baent yn mabwysiadu'r dull hwn.

**Uwch-reolwyr**

6. Mae integreiddio gwasanaethau yn llawn yn awgrymu y dylai'r goruchwylio gael ei wneud gan dîm uwch-reoli sydd wedi'i integreiddio yn yr un modd. Bydd yr astudiaeth yn ymchwilio i botensial sefydlu tîm o'r fath, ynghyd â'r costau, y manteision, y risgiau a'r goblygiadau o ran amseru.

7. Bydd yr astudiaeth hefyd yn ystyried pa mor briodol fyddai hi i'r naill awdurdod a'r llall benodi uwch-reolwr i oruchwylio'i faterion mewnol a'i drefniadau llywodraethu ei hun.

**Cyfranogi**

8. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fydd yn comisiynu ac yn ariannu'r astudiaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfrifoldeb yr awdurdodau fydd rhoi'r argymhellion ar waith mewn ffordd gyfartal i'r ddau gytuno arni.

9. Bydd yr astudiaeth yn gofyn am farn rhanddeiliaid allweddol wrth baratoi'r canfyddiadau a'r argymhellion.

**Amserlen**

10. Bydd yr astudiaeth yn dechrau cyn gynted â phosibl, gyda'r nod o gyflwyno adroddiad i'r ddau awdurdod a Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn mis Chwefror 2011.